

Dwi Eisiau Bod Fel Ti

Nawr fi yw brenin y swingyrs,
Myfi yw'r V.I.P.

Rwyf ar y top, fe ddes i stop,
Mae hyn yn boendod i mi.

Dwi eisiau bod yn ddyn aeddfed
A mynd am dro i'r dre.

Fel gwna y dynion eraill,
Mwncia drosodd, hwre!

O! w! w! w! Dwi eisiau bod fel ti, fel ti!

Dwi eisiau camu fel ti,

Siarad fel ti, ti, hi, hi.

Cewch weld mae'n wir, w, w,

Gall epa fel fi, hi, hi!

Fod jyst fel ti, dyn fel ti, hi, hi!

Y Gwir Anghenion Byw

Ewch am y gwir anghenion byw,
Y syml gwir anghenion byw;
Troi cefn ar boen a gofid o bob rhyw.
Dwi'n sôn am wir anghenion byw,
Neu roddion haul ddaw o law Duw
Sy'n dod â'r gwir anghenion yn ein byw.

Lle bynnag y crwydraf, lle bynnag yr af,
Does unman yn debyg i'm cartref braf.
Fe sua'r gwenyn yn y coed
I wneud y mêl melysia' 'rioed.
Sbia dan y cerrig a'r llwyni
Ac edrych lawr ar y morgrug mawr,
A 'falle blasu rhai.
Y gwir anghenion byw heb os a ddaw i ti,
A ddaw i ti, a ddaw i ti.

Pan bigi'r papaia neu'r bigog ellygen,
Os brathi dy bawen gofala 'rôl hyn.
Paid pigo'r gellyg â dy bawen,
Dy grafanc sydd yn well i'r diben.
Does dim angen defnyddio crafanc
I bigo ffrwyth pren papaia mawr,
Ddeallaist ti y cliw?
Y gwir anghenion byw heb os a ddaw i ti.

Dwi eisiau camu fel ti, siarad fel ti,
Cewch weld mae'n wir,
Y gwir anghenion byw heb os a ddaw i ti.